**<u>Adroddiad Y Cadeirydd. 2025</u>**

Hoffwn ddiolch i'r holl Gynghorwyr, y Cynghorydd Sir a'r Clerc am eu gwaith ar ran Cyngor Cymuned Ganllwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, blwyddyn brysur iawn mewn rhai ffordd.

Yn bras;

Mae'r cyngor wedi cynnal eu cytundeb partneriaeth â Chyngor Gwynedd i sicrhau bod y toiledau yn y pentref yn parhau ar agor am y dyfodol rhagweladwy.

Trwy barhau â phrosiectau sy'n codi arian, mae'r cyngor cymuned unwaith eto wedi sicrhau nad oedd wedi codi cyfraddau preacept lleol i sicrhau y gallai gyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau yn effeithlon.

**CNC, Caru Coed Y Brenin a'r Canolfan Ymwelwyr.**

Mae dau aelod o'r Cyngor Cymuned wedi mynychu cyfarfodydd Caru Coed Y Brenin yn rheolaidd a chyfleu wybodaeth diweddaraf rhwng y grŵp a'r Cyngor, cyswllt sydd wedi bod yn defnyddiol iawn. Mynychodd cynghorwyr a llawer o'r cyhoedd cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu gan CCYB ar y 5ed o Hydref 2024 yng Nghoed y Brenin a mynychwyd cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan CNC yn neuadd bentref Ganllwyd ar y 27ain o Dachwedd 2024. Ond er gwaethaf cefnogaeth y cyhoedd roedd CNC yn bendant am cau y canolfan.
Roedd yr AS Mabon Ap Gwynfor yn llwyddiannus cael trafod y mater yn y senedd ar yr 22ain o Ionawr 2025 ond pleidleisiodd y Cynulliad ar gais Plaid Llafur yn erbyn y cynnig i atal cau'r cyfleusterau hyn.
Diolch i cynghorwyr Rees a Jones am eu waith da yn cadw cyswllt rhwng y gwrp lleol a'r cyngor cymuned a siomedig iawn bod CNC wedi bod mor chwithig drwy'r amser.

**Cynllun Hyfforddi.**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cenedlaethol mae'r cyngor cymuned wedi cadw at cynllun hyfforddi wedi ei oruchwylio gan y Cynghorydd Jones. Mae nifer o gynghorydd wedi cwbl o leiaf 2 gwrs y flwyddyn yma sy'n ymwneud â'u rôl o fewn y cyngor. [manylion? Mae'r Cadeirydd wedi mynychu dau sesiwn ar rôl y cadeirydd a sut i gynnal cyfarfodydd]

**Cyfnewid Tai Cymdeithasol.**

Ar ôl gofyn cwestiynau am cyfnewid tai yn y pentref, teimlodd y cyngor bod y polisi yn gweithio i anfantais pobl sy'n aros ar restrau tai ar gyfer eiddo.
Ar ôl codi'r mater o cyfenwid tai Cyngor, gyda ADRA a'r Cynghorydd Sir Felly

cymerodd ein cynghorydd Sir Delyth Lloyd Griffiths y mater i fyny efo' Cyngor Sir a'r MP lleol Liz Saville Roberts. Cafodd Cynghorydd Griffiths y cyfle i ofyn cwestiwn mewn cyfarfod llawn Cyngor Gwynedd. Daeth yn amlwg bod diffygion yn y rheolau ynghylch cyfnewid tai cymdeithasol yng Ngwynedd a siroedd eraill aeth y mater ymlaen i'r cynulliad yng Nghaerdydd i'w drafod.

Unwaith eto, maen dangos sut mae'n bosib i gyngor bach, cefn gwlad Cymru yn gallu gofyn cwestiwn pwysig a drwy cydweithio gyda'r cynghorydd Sir, yr MP lleol ac ein Aelod Seneddol, codi'r mater yn y llywodraeth Cymru. Mae'n ddangos yn glir bod cynghorau bach yn bwysig ac yn effeithiol.

**Mr. Stringer CNC**

Ym Mis Medi, croesawodd y cynghorwyr Mr Stringer, CNC i'r cyfarfod i drafod y llwybrau 'Tramper' newydd yng Nghoed y Brenin,Ganllwyd. Diolchodd y cyngor i Mr Stringer am ei gyflwyniad a chadarnhau eu cefnogaeth i'r cynllun. Anogodd y cyngor Mr Stringer i hysbysebu'r prosiect hwn yn lleol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r cyfleuster.

**SCCH Jones, Heddlu Gogledd Cymru**

Mis Ebrill, Croesawodd y cyngor SCCH Jones a diolchodd iddo am fynychu'r cyfarfod. Cyflwynodd SCCH Jones disgrifiad o'r gwaith y heddlu yn yr ardal a roedd cyfle i'r cynghorwyr gofyn unrhyw cwestiynau.

**Adolygiadau Ffiniau Cymunedol.**

Wrth adolygu dogfennau sy'n ymwneud â'r mater hwn, daeth yn amlwg bod cynlluniau yn ddiarwybod i aelodau Cyngor Cymuned Ganllwyd i gyfuno'r cyngor â'n cymdogion Cyngor Cymuned Llanelltyd. Pleidleisiodd aelodau'r cyngor cymuned yn unfrydol i wrthwynebu uno o'r fath

Mae'r cyngor wedi cefnogi Pwyllgor Neuadd y Pentref Ganllwyd i roi cysylltiad i'r we i mewn i'r neuadd. Cymeradwyodd y cyngor y penderfyniad hwn gan y bydd yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gael mynediad at gyfarfodydd y cyngor.

Ac yn olaf, talodd y Cyngor deyrnged i Mrs Gwen James, cymeriad mawr y pentref, wedi i gwasanaethu'r cymuned ar y cyngor cymuned, yn yr ysgol a llawer ffyrdd eraill.